OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 886

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011

## RHAN 2

CYMHWYSTRA

**Astudio blaenorol**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), nid oes gan fyfyriwr cymwys sydd wedi ennill gradd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig hawl i gael grant ar gyfer ffioedd, grant at ffioedd, grant newydd at ffioedd, benthyciad cyfrannu at ffioedd na benthyciad at ffioedd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), nid oes gan fyfyriwr cymwys ("A" yn y paragraff hwn) sy'n dechrau ar ei gwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2006 hawl i gael benthyciad at gostau byw os yw A wedi ennill gradd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fyfyriwr cymwys sy'n bresennol ar gwrs dynodedig—

(a) pan fo'r cwrs yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon;

(b) pan nad yw hyd y cwrs yn hwy na 2 flynedd a'r cwrs—

(i) yn gwrs amser-llawn; neu

(ii) yn gwrs rhan-amser (ac y mynegir ei hyd fel y cyfwerth amser-llawn) a phan fo'r cwrs naill ai—

(aa) wedi dechrau cyn 1 Medi 2010;

(bb) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010, a'r myfyriwr yn trosglwyddo i'r cwrs yn unol â rheoliad 8 o gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n dechrau cyn 1 Medi 2010; neu

(cc) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ond cyn 1 Medi 2011 a'r myfyriwr yn fyfyriwr blwyddyn i ffwrdd 2010 mewn perthynas â'r cwrs; ac

(c) nad yw'r myfyriwr cymwys yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig.

(4) Os bernir bod y cwrs presennol yn gwrs sengl oherwydd rheoliadau 5(6) a 5(7) a'i fod yn arwain at ddyfarnu gradd anrhydedd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig i'r myfyriwr cymwys cyn y radd derfynol neu'r cymwysterau cyfatebol, ni rwystrir y myfyriwr cymwys rhag bod â hawl i gael cymorth o dan y Rheoliadau hyn yn rhinwedd paragraff (1) neu (2) mewn perthynas ag unrhyw ran o'r cwrs sengl yn rhinwedd y ffaith bod ganddo'r radd anrhydedd honno.

(5) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw'r cwrs presennol yn arwain at gymhwyster fel gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer;

(b) os yw'r myfyriwr cymwys i gael unrhyw daliad o dan—

(i) bwrsari gofal iechyd y cyfrifwyd ei swm drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr; neu

(ii) lwfans gofal iechyd yr Alban y cyfrifwyd ei swm drwy gyfeirio at incwm y myfyriwr mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs presennol; neu

(c) os yw'r cwrs presennol yn gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon, sydd—

(i) yn gwrs amser-llawn; neu

(ii) yn gwrs rhan-amser sydd naill ai—

(aa) wedi dechrau cyn 1 Medi 2010;

(bb) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010, a'r myfyriwr yn trosglwyddo i'r cwrs presennol yn unol â rheoliad 8 o gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n dechrau cyn 1 Medi 2010; neu

(cc) yn dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ond cyn 1 Medi 2011 a'r myfyriwr yn fyfyriwr blwyddyn i ffwrdd 2010 mewn perthynas â'r cwrs.